

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud.
Targed 1	Ymgysylltu â llenyddiaeth yn fwy er mwyn cryfhau'r sgil o ddadansoddi'n feirniadol.	Yr wyf wedi ceisio ymgysylltu a Llenyddiaeth yn fwy o fewn fy adolygiad Llenyddol ac wrth i mi ddatblygu'r pwynt gweithredu. Rwyf hefyd wedi ceisio sicrhau fy mod yn gwneud gwell ddefnydd o lenyddiaeth sy'n berthnasol i Gymru e.e. dogfennau'r Llywodraeth ynghyd ag adroddiad Donaldson.
Targed 2	Parhau i ddatblygu'ch sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig, e.e. osgoi cyfieithu yn llythrennol o'r Saesneg.	Rwyf wedi ceisio osgoi ymadroddion Saesneg, gan ddefnyddio Geiriadur yr Academi a chysill i wirio a phrawf ddarllen fy ngwaith.

Cyflwyniad

Ysgol arloesol yw'r ysgol hon sy'n cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion yn y clwstwr i weithredu a datblygu Cwricwlwm i Gymru 2022. Ehangwyd yr ysgol ym Medi 2012, i ddarparu addysg i ddisgyblion o dair i bedair ar bymtheg oed a bellach y mae 687 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae bron pob disgybl o ethnigrwydd gwyn, gyda 41% yn dod o gartrefi sy'n medru'r Gymraeg. Gwelir bod 8% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ôl Estyn (2017). Mae 9% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd eto yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig (Estyn, 2017).

Gofynnir i ni adfyfyrio'n feirniadol ar elfen benodol o Gynllun Datblygu Ysgol, gan asesu sut y mae'r ysgol yn ei weithredu, yr effaith a sylfaen y dystiolaeth. Penderfynais ganolbwyntio ar ***Hyfforddiant staff i gefnogi disgyblion bregus a sicrhau bod cefnogaeth addas iddynt.*** Y rheswm am hyn yw fy mod yn credu bod lles disgyblion yn gosod sylfaen ar gyfer datblygiad a chyrhaeddiad plentyn o fewn yr ysgol. Os yw'r ffactor yma yn ei le y bydd popeth arall yn dilyn, gyda'r Llywodraeth (assembly. Wales, 2018) yn datgan bod dystiolaeth

yn dangos gydag ymyrraeth a chymorth priodol ac amserol, gall plant a phobl ifanc fyw bywydau hapus a ffynnu yn yr ysgol.

Adolygiad llenyddiaeth

Yn ôl un diffiniad, mae cynllun datblygu ysgol yn:

‘road map that sets out the changes a school needs to make to improve the level of student achievement, and shows how and when these changes will be made.’ (*Park, 2013, t6*).

Cyfoethoga Brighthouse a Woods y diffiniad hwn gan ychwanegu ei fod yn ymdrech systematig a pharhaus gyda'r nod o wneud newidiadau sy'n cyflawni nodau addysgol yn fwy effeithiol ac yn gwella deilliannau myfyrwyr (Brighthouse & Woods, 2013).

Mae datblygiad yn derm allweddol er mwyn meithrin ansawdd mewn unrhyw fath o sefydliad, yn enwedig yn y maes addysg, gan fod angen a galw i ganolbwyntio ar ddatblygu ysgolion drwy ystyried pwysigrwydd y gweithlu a chynllunio strategol yn ôl Schildkamp and Poortman (2015). Ac y mae angen sicrhau eu bod yn dechrau a nodau pendant, penodol a mesuradwy. Gwelir Brighthouse a Woods (2013) bod yna ddwy brif ymagwedd at wella ysgolion. Gellir galw'r cyntaf yn ymagwedd pragmatig a rhesymegol mewn system o gynyddu atebolrwydd. Mae'r dull gweithredu hwn yn pwysleisio'r angen i bennu ystod o dargedau a monitro cynnydd yn drylwyr (Brighthouse & Woods, 2013). Serch hynny y mae'r ail ymagwedd yn fwy atebol a'n cwricwlwm newydd gan ei fod yn greadigol, ac yn pwysleisio perchenogaeth a chymhelliant personol, sy'n gosod agweddau, teimladau a ffyrdd o weithio ar y cyd wrth wraidd y broses o ddatblygiad (Brighthouse & Woods, 2013).

Ym mis Medi 2015, gwnaed y Llywodraeth hi'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru fod a chynllun datblygu ysgol (CDY) (Llyw.Cymru, 2014). Gwnaed yn ofynnol i ysgolion roi cynllun tair blynedd ar waith a oedd yn nodi sut y byddai'r ysgol yn cyflawni ei thargedau mewn perthynas â'i blaenoriaethau (Llyw.Cymru, 2014).

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion yng Nghymru wedi cryfhau eu hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC, 1989), gan ei ddefnyddio i ategu eu gwaith i hyrwyddo rhagoriaeth, tegwch a lles. Bellach yn unol â Deddf Addysg 2002, nod Cwricwlwm i Gymru 2022 yw sicrhau bod addysg yn gynhwysol a bod pob myfyriwr yn derbyn addysg o'r safon orau, waeth beth yw ei oedran, gallu, dawn neu angen addysgol arbennig (UNESCO, 2012). Ymhellach, nod rhaglen addysg gyfredol Llywodraeth Cymru yw helpu pawb i gyrraedd eu potensial, lleihau anghydraddoldeb, a gwella lles economaidd a chymdeithasol ein cymdeithas (Llyw.cymru, 2013).

Fodd bynnag, cydnabyddir Llywodraeth Cymru yn ei adroddiad '*Mind over Matter*' bod y gefnogaeth i iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi bod yn rhy gyfyng ers amser. Credan nhw fod yr amser wedi dod i ddarparu cymorth iechyd meddwl ac emosiynol priodol, amserol ac effeithiol i blant a phobl ifanc Cymru (assembly.wales, 2018), gan gryfhau'r ddadl wrth ddatgan bod angen i ni gyfarparu ein plant â'r sgiliau, yr hyder a'r offer i fod yn wydn yn emosiynol. Gwelw nhw fod angen ymyrraeth llawer ynghynt er mwyn mynd i'r afael â gwraidd y broblem (assembly.wales, 2018).

Atgyfnertha Kirsty Williams yn y ddogfen Cenhadaeth ein Cenedl (2017), ei fod yn ddyletswydd arnom i ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth o'r safon uchaf i genedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal dywed y dylwn sicrhau bod ein dysgwyr yn anelu at fod y gorau. O ganlyniad y mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o faterion emosiynol ac iechyd meddwl, i fynd i'r afael â stigma, hybu iechyd meddwl da a chyfeirio pobl at wasanaethau cymorth lle bo angen (assembly. Wales, 2018)

Dengys adroddiad '*Healthy and Happy: School impact on pupils' health and Wellbeing*' (Estyn, 2019) bod gan tua dwy ran o dair o ysgolion cynradd a thraean o ysgolion uwchradd yng Nghymru ddull cynhwysol ysgol gyfan o gefnogi disgyblion bregus a sicrhau'r cymorth addas iddynt. Mae staff yn olrhain ac yn adolygu cynnydd a lles yn rheolaidd ac yn gosod targedau heriol ar gyfer disgyblion, sy'n uniaethu'n dda â'u hanghenion personol a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r ysgolion hyn yn adeiladu perthnasoedd gwaith da gyda rhieni a gofawyr a chydag ystod eang o asiantaethau allanol, sy'n eu helpu i gynllunio'r ddarpariaeth orau ar gyfer eu disgyblion bregus wrth adolygu eu cynnydd (Estyn, 2018/19).

Dengys adroddiad OECD (2012) bod myfyrwyr yn gadarnhaol ynghylch eu perthnasoedd â'u hathrawon ynghyd a pharodrwydd eu hathrawon i roi cymorth ychwanegol iddynt pan fo gofyn, gan fod iechyd a lles y disgyblion yn flaenoriaeth iddyn nhw. Serch hynny awgryma Dumont et al (2010) bod angen cryfhau gallu pedagogiaidd athrawon, yn enwedig eu sgiliau addysgu gwahaniaethol a'u defnydd o asesiadau ffurfiannol i'w ganiatáu iddynt ymateb yn well i anghenion dysgu unigolion. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen i athrawon Cymru wneud mwy i addasu eu haddysgu i anghenion gwybyddol ac emosiynol eu myfyrwyr, gan osod myfyrwyr wrth wraidd dysgu, gosod disgwyliadau uchelgeisiol ond realistig a bod yn ymatebol i'w hanghenion dysgu unigol drwy strategaethau addysgu gwahaniaethol (OECD, 2014).

Adleisia Barron and Darling-Hammond (2010) yr un ddadl wrth hefyd nodi taw nid rhywbeth sy'n digwydd "inside individuals" yn unig yw dysgu ond rhywbeth sy'n ymwneud â'r rhyngweithio strwythuredig â'r cynnwys, gan athrawon, adnoddau, cyfleusterau a'r

dechnoleg sydd ar gael. Felly dylai athrawon dderbyn canllawiau clir a chydlynol wrth fynd i'r afael â'r amryw o anghenion sydd gan ddisgyblion bregus er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y gefnogaeth a'r addysg orau i blant a phobl ifanc Cymru.

Datblygu Pwynt Gweithredu / Adfyfrio a Gwerthuso

Yn unol â'r hyn y dywed Llywodraeth Cymru (2014), dylai ***Hyfforddiant staff i gefnogi disgyblion bregus a sicrhau bod cefnogaeth addas iddynt***, gynnwys holl bartneriaid a rhanddeiliaid yr ysgol. Dylai llais pawb sy'n arfer barn yn yr ysgol fod yn rhan o'r broses gan gynnwys y pennaeth, uwch arweinwyr, llywodraethwyr, athrawon, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae deialog beirniadol rhwng gwahanol rhanddeiliaid yn hollbwysig, ac yn hanfodol wrth sicrhau nad yw'r defnydd o ddata yn canolbwyntio'n unig ar gyflawniad a diffygion galluoedd disgyblion, ond ei fod hefyd yn canolbwyntio ar gryfderau disgyblion (Park et al., 2013). Serch hynny yn achos y pwynt gweithredu hwn dylai'r ysgol sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid yn ymwybodol o ddiffygion ei disgyblion, ac yn gallu gweithredu'n briodol os bo angen. Yn yr achos hwn, credaf y byddai'n fuddiol i staff gydweithio a'i gilydd gan sicrhau eu bod yn ystyried cefndir economaidd-gymdeithasol disgyblion ynghyd â'r gymuned yn ei gyfanrwydd er mwyn pennu'r nodau mwyaf cyraeddadwy wrth weithredu'r camau ar y CDY ynghyd a chynnig addysg gynhwysol o'r safon gorau posib i bob unigolyn.

Gallai rhanddeiliaid fod yn ddangosyddion clir o hunanwerthuso, gyda nid yn unig staff yn gwerthuso eu hymgysylltiad a'u cyfraniad eu hunain i anghenion yr unigolion yn eu hystafell ddosbarth, ond yr ysgol a phartneriaid yntau yn gwerthuso eu cyfraniad a'u mewnbwn hwy. Wrth wneud hyn byddant yn driw i'r hyn a ddywedodd Brighthouse and Woods (2013) wrth ddatgan bod datblygiad ysgol yn ei diwylliant cryf o fyfyrddod proffesiynol ac yn ei hastudiaethau achos o lwyddiant, yn dyst i wybodaeth weithredol, fyfyrionol ar y cyd sydd wedi'i hanelu at wella'r ysgol. Tanlinella'r Adran Addysg a Sgiliau (2016) hyn hefyd trwy ddatgan bod yr ysgolion mwyaf effeithiol yn adolygu ymarfer eu hunain yn gyson ac yn chwilio am ffyrdd o wella'r ysgol o hyd. Heb os, tacteg y dylai pob ysgol ymgeisio i weithredu'n llawn er mwyn sicrhau addysg o'r ansawdd orau sy'n hygyrch a chyraeddadwy i bob disgybl lle bo iechyd a lles yn flaenoriaeth. Yn yr un modd tynnai Estyn (2014) sylw at bwysigrwydd hunanwerthuso gan ddatgan ei fod yn bwysig i nodi cryfderau ynghyd a meysydd i'w datblygu wrth hunan arfarnu. Yn sicr y mae hyn yn nodwedd hynod o bwysig oherwydd dengys tystiolaeth bod yna cydberthnasau cryf rhwng hunanwerthuso a gwelliannau mewn profiadau addysgol a deilliannau ar gyfer dysgu. Gwelaf ei fod yn bwysig i ddathlu llwyddiannau'r ysgol yn sicr, ond hefyd cydnabod yr hyn sydd angen gwella gan weithio i 'bring out the unique and distinctive features of the school and the richness of its

provision, ensuring that systems are designed so well that a high standard is assured when the system operates as it should' (Sahin & Kilic, 2018, t194).

Awgryma ymchwil y gall y broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata gyfrannu at gynnydd mewn dysgu a chyflawniad disgyblion (Lai et al, 2014). Fodd bynnag, er mwyn gwireddu potensial llawn data mewn sefydliad addysgiadol, credaf fod angen mwy o fewnwelediad o ran y ffyrdd gorau o ddefnyddio data i wella ansawdd ysgolion er mwyn bod yn fwy atebol i addysg bob plentyn yn unigol. Gan ystyried hyn yn achos ***Hyfforddiant staff i gefnogi disgyblion bregus a sicrhau bod cefnogaeth addas iddynt***, dydw i ddim yn credu bod data meintiol nag ansoddol yn cael llawer o effaith o ran hyfforddi na chefnogi plant. Er bod gan ddata cyd-destunol dylanwad ar gynllun gweithredu ysgol, yn enwedig data ansoddol wrth iddo ymwneud â deall yr ymddygiad dynol o safbwynt addysgiadol (Michiello et al, 1990). Er mwyn i'r broses hon fod ar ei fwyaf effeithiol, awgrymaf y dylid casglu data mewn modd llai ffurfiol, gan ddilyn awgrymiadau Schildkamp (2019) sy'n awgrymu y dylid gwneud defnydd o arsylwadau anffurfiol yn y dosbarth ag ymwneud â thrafodaethau gyda'r plant yn fwy rheolaidd. Mae athrawon eisoes yn casglu gwybodaeth am anghenion eu plant yn ddyddiol trwy arsylwi ac ymgysylltu â nhw mewn sgysrsiau wrth ddefnyddio'r dull asesu ar gyfer dysgu. Serch hynny, byddai Veldkamp et al (2017) yn awgrymu yn gryf y dylid gweithredu'n llai ffurfiol gan nodi y gellid defnyddio ffynhonnell data ffrwythlon i helpu llywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn ysgol. Cyfrannir hwn yn gryf hefyd at annog ymgysylltiad gweithredol dysgwyr, a datblygu ymwybyddiaeth o'u gweithredoedd fel dysgwyr gweithredol yn ôl yr OECD (2010) sy'n unol a gofynion Donaldson (2015) ac yn hyrwyddo datblygiad a lles plant a phobl ifanc Cymru.

Cynigia'r syniadaeth o wreiddio Meddylfryd Twf ymysg disgyblion ar draws yr ysgol hon y gallu i ddatblygu gwydnwch emosiynol ynghyd a dyfalbarhad wrth ymwneud â thasgau gwaith o fewn a thu allan i'r ysgol gyda chymorth staff sydd wedi hyfforddi ar sut i'w gefnogi fel rhan o'r pwynt gweithredu hon. Dengys hwn yn sicr fod yr ysgol yn meithrin gallu eu disgyblion ar y pryd ac i'r dyfodol mewn modd strwythuredig, gan sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn sicrhau cynllunio olyniaeth effeithiol i'r dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2014). Y mae'r syniadaeth wedi ei hintegreiddio o fewn ac ar draws yr ysgol gyda'r athrawon i gyd yn cydweithio er mwyn cryfhau agwedd cadarnhaol tuag at ddysgu, yn enwedig y disgyblion mwyaf bregus, gan sicrhau fod strategaethau priodol mewn lle er mwyn cynnig y gefnogaeth addas i'r disgyblion hyn. Yn ôl Yeager et al (2014) mae myfyrwyr sydd â Meddylfryd Twf yn gallu addasu'n well i newidiadau academiaidd anodd o'u cymharu â'r rhai sydd â meddylfryd sefydlog. Yn ogystal y mae'n bwysig nodi fod tystiolaeth yn dangos bod Meddylfryd Twf yn gwaredu syniadaeth negyddol mewn amgylcheddau heriol (Infurna & Luthar, 2016)., a gan ystyried bod nifer o

amgylchiadau mewn bywyd yn achosi straen i unigolion ac yn ffactorau risg ar gyfer datblygu trallod seicolegol, y mae hwn yn ddull priodol a chynhwysfawr. Er bod Meddylfryd Twf wedi bod yn ddull llwyddiannus drwy'r ysgol gyfan yn ôl adroddiad interim yr ysgol, credaf fod angen rhoi cynnig ar dactegau dysgu gwahanol o hyd, drwy sicrhau nad oes un model sy'n addas i bawb. Yn bendant, dyma'r amser perffaith i wneud hyn gyda chyflwyniad Cwricwlwm Newydd i Gymru. Mae Donaldson (2015) yn galw ar addysg ledled ein gwlad i sicrhau lles a llwyddiant pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, gan ddatblygu unigolion iach a hyderus, sy'n fentrus, creadigol ac uchelgeisiol. Rwyf hefyd o'r farn bod angen i ysgolion feddwl yn realistig, yn enwedig wrth osod gwaith i fyfyrwyr mwy bregus. Mae gormod o amser ac ymdrech yn cael ei wario ar dargedau a chyflawniad ac rwy'n credu bod angen i'r ysgol ganolbwyntio ar osod nodau penodol, cyraeddadwy i bob unigolyn, sydd wedi'u teilwra ar eu cyfer. Cytuna Dweck (2006, t168) gan nodi 'although people may differ in every which way in their initial talents and aptitudes, interests, or temperaments, everyone can change and grow through application and experience.

Arweiniai hyn yn briodol at fesur effaith y cam gweithredu. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2014) dylid monitro CDY yn rheolaidd a'u hadolygu'n ffurfiol gan ei ddiwygio o leiaf bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod cynlluniau a strategaethau gwella'r ysgol yn adlewyrchu cyd-destun diweddaraf yr ysgol ac yn atebol i anghenion cyfredol y disgyblion/ysgol. Er nad yw'r ysgol yn mesur cynnydd yn rheolaidd, hynny yw bob chwarter neu bob tymor, nodwyd yr ysgol ei bod nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i fireinio ei systemau presennol a'u haddasu i gefnogi eu disgyblion. Ychwanegant nhw fod y disgyblion bregus yn derbyn y gefnogaeth gywir a phriodol bellach. Er mwyn sicrhau bod y pwynt gweithredu hon yn effeithiol, gellid gosod cerrig filltir/nodau i'w gyrraedd yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn. Mae gosod nodau yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol gan gynyddu'r ymdrechion rhanddeiliad, staff a disgyblion tuag at berfformiad. Dengys ymchwil pan fo unigolyn yn gosod nod, ei bod nhw'n dangos mwy o ymdrech gorfforol, uniongyrchol a gwybyddol (Locke & Latham, 2002). Yn ogystal y mae'n sicrhau bod cynnydd yn yr ymdrech a'r amser a dreulir ar y dasg. Bydd yr amser a neilltuwyd ar gyfer nod penodol yn effeithio ar y ffordd y caiff yr ymdrech hon ei wario, boed mewn cyfnodau byr o ymdrech ddwys neu mewn sesiynau llai dwys dros gyfnodau hirach o amser. (Locke & Latham, 2002). Wrth weithredu yn y modd hwn gall ysgolion geisio sicrhau nid yn unig bod nodau a disgwyliadau yn cael eu cyflawni, ond hefyd eu bod yn canolbwyntio amser ac egni ar y meysydd sydd â'r angen mwyaf. Drwy wneud hyn, gallant sicrhau eu bod yn mesur effaith a chynnydd yn rheolaidd a'u bod yn glir ynghylch y camau priodol sydd angen ei gymryd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth a'r addysg orau bosibl.

Casgliad (200)

I grynhoi felly, rwyf wedi dysgu bod CDY yn rhan hanfodol ac annatod o unrhyw ysgol. Mae nid yn unig yn chwarae rhan hollbwysig yn gwella'r ysgol a sicrhau bod y ddarparu o addysg ynghyd a safonau mor uchel ag sy'n bosib, ond y mae hefyd yn dod â'r gymuned ehangach at ei gilydd gan roi llais a chyfrifoldeb i bawb, rhywbeth y gwelaf sy'n hynod o bwysig wrth adeiladu sylfaen a chydberthasoedd cadarn yn yr ysgol a thu hwnt. Y prif beth i mi wrth symud ymlaen i'r dyfodol, yw sicrhau bod datblygiad a lles disgyblion yn ganolog i'm harfer dda fel athrawes. Dylwn weithio yn gyson i sicrhau fy mod yn darparu addysg gynhwysol, gan roi sylw i anghenion unigol a sicrhau fy mod yn darparu'r profiadau a chyfleoedd gorau posibl i gyfrannu at ddyfodol llwyddiannus y plant.

Cyfrif geiriau: 2707

Rhestr Gyfeirnod

Adran Addysg a Sgiliau. (2016). *School self-evaluation guidelines 2016- 2020*. Dulyn: The Inspectorate.

Barron, B., & L. Darling-Hammond (2010). *Prospects and challenges for inquiry-based approaches to learning*. Paris. OECD Publishing.

Brighouse, T., & Woods, D. (2013). *The A-Z of school improvement principles and practice*. Llundain. Bloomsbury Education.

Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps Kim Schildkamp, Lai, M. K., A. Wilson, S. McNaughton, and S. Hsiao. 2014. Improving Achievement in Secondary Schools: Impact of a Literacy Project on Reading Comprehension and Secondary School Qualifications. *Reading Research Quarterly*. 49 (3).

Donaldson., G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Ar gael:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>.

Cyrchwyd: 23/03/2020.

Dumont, H., Istance, D., Benavides, F. (2010). *The Nature of Learning: Using Research to Inspire Practice, Educational Research and Innovation*. Paris. OECD Publishing.

Dweck, C. (2006). *Mindset: The New Psychology of Success*. Efrog Newydd. Random House.

Estyn. (2014). *Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion cynradd 2014; Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion uwchradd 2014; Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion arbennig 2014*. Ar gael ar lein:

https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Welsh%20for%20adults%20manual%20cy_0.pdf Cyrchwyd: 30/03/2020.

Estyn. (2017). Adroddiad Estyn. Ar gael ar lein:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/%20en.pdf> Cyrchwyd: 29/03/2020.

Estyn (2018/19). *The Annual Report of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales 2018-2019*. Ar gael ar lein:

https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/Annual_Report_2018_2019_en.pdf Cyrchwyd: 29/03/2020.

Estyn. (2019). *Healthy and happy—school impact on pupils' health and wellbeing*. Ar gael ar lein: <https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/healthy-and-happy> Cyrchwyd: 20/03/2020.

Infurna, F. J., & Luthar, S. S. (2016). Resilience to major life stressors is not as common as thought. *Perspectives on Psychological Science*. 11. t175–194.

Lai, M. K., A. Wilson, S. McNaughton, and S. Hsiao. (2014). Improving Achievement in Secondary Schools: Impact of a Literacy Project on Reading Comprehension and Secondary School Qualifications. *Reading Research Quarterly*. 49 (3). t305–334.

Locke, E. A., & Latham, G. P. (2002). Building a practically useful theory of goal setting and task motivation: A 35-year odyssey. *American Psychologist*. 57. t705–717.

Llywodraeth Cymru. (2013). *Achievement and Entitlement to Free School Meals in Wales, 2012*. Ar gael ar lein: <https://gov.wales/achievement-and-entitlement-free-school-meals#latest-release> Cyrchwyd: 30/03/2020.

Llywodraeth Cymru. (2014). *School development plans*. Ar gael ar lein:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/school-development-plans.pdf> Cyrchwyd: 01/04/2020.

Llywodraeth Cymru. (2017). *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cendl. Cynllun Gweithredu 2017-21*. Ar gael ar lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf> Cyrchwyd: 01/04/2020.

Llywodraeth Cymru (2018). *Mind over matter A report on the step change needed in emotional and mental health support for children and young people in Wales*. Ar gael ar lein: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-e.pdf> Cyrchwyd: 28/03/2020.

OECD. (2010). *PISA 2009 Results: What Makes a School Successful? Resources, Policies and Practices (Volume IV)*. Paris. OECD Publishing.

OECD. (2012). *Equity and Quality in Education: Supporting Disadvantaged Students and Schools*. Paris. OECD Publishing.

Park, V., A. J. Daly, and A. W. Guerra. (2013). Strategic Framing: How Leaders Craft the Meaning of Data Use for Equity and Learning. *Educational Policy*. 27 (4).

Park, S. (2013). Continuous Improvement in Education. *Carnegie Foundation for the Advancement of Teaching*. t6.

Sahin, S., & Kilic, A. (2018). School Self Evaluation Model Suggestion. *International Journal of Instruction*. 11(3). t193-206. Prifysgol Düzce. Twrci.

Schildkamp, K., and C. L. Poortman. (2015). Factors Influencing the Functioning of Data Teams. *Teachers College Record* 117 (4).

UNESCO (United Nations Educational, Scientific and Cultural Organization). (2012). *United Kingdom (Wales), World Data on Education, 7th edition 2010/11, International Bureau of Education*. Ar gael ar lein: www.ibe.unesco.org/fileadmin/user_upload/Publications/WDE/2010/pdfversions/United_Kingdom_Wales.pdf Cyrchwyd: 03/04/2020.

United Nations. (1989). *Convention on the Rights of the Child*. Ar gael ar lein: <https://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf> Cyrchwyd: 05/04/2020.

Veldkamp, B. P., K. Schildkamp, M. Keijsers, A. J. Visscher, and A. J. M. De Jong. (2017). Report: Exploring Data-Driven Educational Research in the Netherlands. *Exploration of Big Data in Education in the Netherlands*. Enschede. Prifysgol Twente.

Yeager, D. S., Johnson, R., Spitzer, B. J., Trzesniewski, K. H., Powers, J., & Dweck, C. S. (2014). The far-reaching effects of believing people can change: Implicit theories of personality shape stress, health, and achievement during adolescence. *Journal of Personality and Social Psychology*. 106(6). t867–884.

